

Cyngor Sir Penfro



**Canllawiau ar gyfer y Gwasanaeth
Cwnsela Ysgolion yn Sir Benfro**

Medi 2018

Pembrokeshire County Council
County Hall, HAVERFORDWEST
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir, HWLFFORDD
Sir Benfro, SA61 1TP

Canllawiau ar gyfer y Gwasanaeth Cwmsela Ysgolion yn Sir Benfro

Cynnwys

	Adran
Beth yw cwmsela?	1
Y Gwasanaeth Cwmsela Ysgolion yn Sir Benfro	2
Sut mae cwmsela'n cyd-fynd â chefnogaeth fugeiliol arall?	3
Gweithdrefnau cyfeirio	4
System apwyntiadau	5
Cyfrinachedd	6
Caniatâd rhieni	7
Sesiynau cwmsela	8
Lleoliad	9
Hyrwyddo'r Gwasanaeth Cwmsela Ysgolion	10
Fframwaith moesegol	11
Cadw cofnodion	12
Gweithdrefnau cwynion	13
Gwybodaeth ychwanegol	14
Deunydd cyfeirio	
Atodiad	

1.0 Beth yw cwnsela?

“Gall plentyndod a’r glasoed fod yn gyfnod anodd iawn ac, fel oedolion, weithiau mae angen i bobl ifanc siarad ag unigolyn annibynnol sy’n eu deall ac na fydd yn eu barnu.”

“Mae cwnsela’n ffordd o helpu pobl trwy siarad a gwranddo. Anogir y cleient i fynegi eu teimladau a’u meddyliau am eu problem fel y gallant ddeall eu hunain a’u hymddygiad yn well ac felly gwella’u ffyrdd o ymdopi.”

“Mae cwnsela’n cynnwys contract a ymgwymerir yn fwriadol, gyda ffiniau y cytunwyd arnynt yn glir ac ymrwymiad i breifatrwydd a chyfrinachedd. Mae’n gofyn am ganiatâd eglur a gwybodus.”

(Cod Moeseg ac Ymarfer BACP)

1.1 Mae cwnsela’n...

- cynnig cyfle ac amser rheolaidd i siarad neu feddwl am bryderon neu anawsterau
- helpu pobl ifanc i archwilio’u teimladau ac edrych ar sut maent yn dymuno i bethau fod yn wahanol, drwy siarad a defnyddio ystod o weithgareddau
- gallu ymwneud â materion datblygiadol, datrys problemau, gwella perthnasoedd, gwneud dewisiadau, ymdopi â newidiadau, cael mewnwleidiad a dealltwriaeth, tyfu fel unigolyn
- cael ei gynnal gan gwrselwyr hyfforddedig, cwbl gymwys, sydd wedi cael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac sy’n gweithio o fewn eu cod moeseg ac ymarfer proffesiynol.

Nid yw cwnselwyr yn rhoi cyngor. Maent yn ceisio gweld y problemau a gyflwynir iddynt gan bobl ifanc o safbwyntiau’r person ifanc. Trwy ddarparu amser, cyfrinachedd a lle diogel, gallant helpu pobl ifanc i siarad am eu pryderon ac unrhyw broblemau sy’n effeithio arnynt ac i adnabod ffyrdd o ymdopi.

2.0 Y Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion yn Sir Benfro

Mae’r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion yn wasanaeth proffesiynol a chyfrinachol sydd ar gael i bobl ifanc sy’n byw yn Sir Benfro a/neu’n mynd i ysgolion uwchradd Sir Benfro, ynghyd â disgyblion Blwyddyn 6 yn yr Ysgol Gynradd. Mae’r gwasanaeth yn cynnig lle rheolaidd i bobl ifanc siarad a meddwl am bethau sy’n bwysig iddynt. Mae’r gwasanaeth yn gweithredu yn unol â Fframwaith Moesegol Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain (BACP) a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae’r gwasanaeth cwnsela’n darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, gan eu cefnogi i gyflawni eu

potensial. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm o gwrselwyr, goruchwylwyr a hyfforddwyr sydd â chymwysterau proffesiynol, gyda blynyddoedd o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth cwnsela wedi'i deilwra ar gyfer gofynion unigol plant a phobl ifanc. Mae'n darparu:

- cwnsela un i un i bobl ifanc
- hyfforddiant staff ar gais
- ymgynghoriaeth
- cysylltiadau ag asiantaethau addas eraill

3.0 Sut mae cwnsela'n cyd-fynd â chefnogaeth fugeiliol arall?

Mae ystod o weithwyr proffesiynol yn gweithio mewn ysgolion sydd â'u rôl yn cynnwys gofal bugeiliol disgyblion, ac mae ysgolion yn gyfrifol am addysg a datblygiad disgyblion; mae hyn yn cynnwys materion lles.

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion yn wasanaeth ar wahan, wedi'i reoleiddio'n broffesiynol, ac fe'i hystyrir fel ffynhonnell ychwanegol o gymorth arbenigol sydd ar gael yn gyffredinol ar safle'r ysgol ac yn ystod amser ysgol. Er ei fod yn wasanaeth ar wahan, mae'n gweithredu o fewn polisïau'r ysgol a'r Gyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion.

4.0 Gweithdrefnau Cyfeirio

Mae mynediad i sesiynau cwnsela un i un yn yr ysgol uwchradd drwy hunan-gyfeiriad yr unigolyn ifanc. Gyda chaniatâd yr unigolyn ifanc, gall staff yr ysgol, gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc a rhieni/gwarcheidwaid hefyd gyfeirio disgyblion.

Gellir cysylltu â chwrselydd yr ysgol drwy un o'r dulliau canlynol;

- Ymweld â'r chwrselydd (ar y diwrnodau maent yn yr ysgol) yn yr ystafell gwnsela i drefnu apwyntiad
- Ffonio swyddfa ganolog y Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion i drefnu apwyntiad ar; **01437 764551** a gofyn am y Gwasanaeth Cwnsela
- E-bostio'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion ar; schoolcounsellor@pembrokeshire.gov.uk

Gall staff neu rieni/gwarcheidwaid gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at y gwasanaeth, ond mae'n rhaid i'r chwrselydd gael caniatâd penodol yr unigolyn ifanc cyn y gall sesiynau cwnsela ddechrau.

Ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 mae cyfeirio i'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion Cynradd drwy'r Panel Therapiau Llesiant. Gofynnwch i'ch Seicolegydd Addysgol am ragor o fanylion.

5.0 System apwyntiadau

Unwaith y bydd apwyntiad wedi'i drefnu, bydd y cwnselydd yn cysylltu â'r aelod o staff cyswllt dynodedig yn yr ysgol, i'w hysbysu bod yr unigolyn ifanc yn mynychu cwnsela er mwyn esbonio'u lleoliad yn yr ysgol. Gellid defnyddio system e-bost fewnol yr ysgol, lle bo hynny ar gael. Weithiau, efallai na fydd unigolyn ifanc am gael cwnsela yn yr ysgol, ac os felly, bydd y cwnselydd yn trefnu lleoliad arall.

Dylai'r aelod cyswllt o staff yr ysgol fod yn aelod o'r uwch dîm rheoli. Dylai cwnselydd yr ysgol a'r aelod cyswllt o staff yr ysgol gyfarfod yn rheolaidd.

Mae'n bwysig bod y system apwyntiadau mor gyfrinachol â phosib, a bydd staff yn cael gwybod ar sail angen gwybod. Bydd angen i'r aelod staff cyswllt a'r Pennaeth Blwyddyn wybod os yw unigolyn ifanc yn cael sesiynau cwnsela. Gweler atodiad 1.

6.0 Cyfrinachedd

Mae cyfrinachedd yn egwyddor foesegol sylfaenol yn y broses gwnsela. Mae'n caniatáu i berthynas ymddiriedol ddatblygu. Mae'n caniatáu i'r unigolyn ifanc rannu teimladau a phryderon heb ofni cael bai na dial. Mae hawl unigolyn ifanc i breifatrwydd a chyfrinachedd wedi'i sefydlu'n gyfreithiol yn erthygl 8 Deddf Hawliau Dynol 1998.

Ni fydd y cwnselydd yn trosglwyddo unrhyw adroddiadau manwl o sesiynau, ond mae'n bosibl y bydd yn cyfathrebu'n rheolaidd â staff bugeiliol yr ysgol am gynnydd cyffredinol, gyda chaniatâd y plentyn. Mae unigolyn ifanc yn rhydd i siarad ag unrhyw un am eu sesiynau cwnsela os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ond ni ddylai staff yr ysgol eu holi'n uniongyrchol.

Weithiau, efallai y bydd angen cysylltu ag asiantaeth arall, neu gyfeirio'r unigolyn ifanc at asiantaeth arall, i gael cymorth pellach. Dim ond gyda chaniatâd penodol yr unigolyn ifanc y dylai hyn ddigwydd, oni bai bod pryderon amddiffyn plant a/neu iechyd meddwl.

Mae'n annhebygol y bydd problemau cynnal cyfrinachedd os oes ymddiriedaeth, ewyllys da a pharch rhwng y cwnselydd, yr ysgol, y staff a'r rhieni.

6.1 Pa gyfyngiadau sydd ar gyfrinachedd?

"Bydd unrhyw ymgais i gael gwared ar egwyddor cyfrinachedd mewn cwnsela yn tanseilio ethos cyffredinol yr ysgol fel cymuned addysgol ofalgar yn fuan iawn."

(Roger Casemore, Cyfrinachedd a Chwnsela Ysgol, BACP 1995)

Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd dymuniadau unigolyn o ran cyfrinachedd yn cael eu wrthwneud gan y dyletswydd pennaf i ddiogelu lles plentyn. (*Diffinnir plentyn fel unrhyw un o dan 18 oed*, Deddf Plant 1989). Mae cwnselwyr ysgol yn gweithio yn unol â pholisïau amddiffyn plant ysgolion unigol a Gweithdrefnau a Pholisi Amddiffyn Plant ar gyfer Ysgolion 2014.

Gwasanaeth Cynhwysiant a Phlant ag Anableddau

Bydd y cwnselydd yn ei gwneud yn glir i'r unigolyn ifanc o'r dechrau y gallai fod angen iddynt dorri cyfrinachedd (h.y. dweud wrth rywun a cheisio cymorth). Gall hyn ddigwydd pan fo'r unigolyn ifanc neu unrhyw unigolyn arall mewn perygl o niwed sylweddol. Bydd y cwnselydd yn trafod hyn gyda'r unigolyn ifanc eto os bydd yr angen yn codi. Os yw'r plentyn yn *'gymwys yn ôl canllawiau Gillick', bydd y cwnselydd yn ceisio cael eu caniatâd i ddatgelu eu pryderon. Lle bo modd, bydd y cwnselydd yn hysbysu'r unigolyn ifanc a'i gynnwys yn y broses hon. Mae cwnselwyr ysgol yn gyfarwydd â gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol, ac yn gweithio oddi mewn iddynt, ac maent yn gwybod sut i gysylltu â'r Unigolyn Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol. Hyd yn oed heb ganiatâd y plentyn, efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth y maent wedi'i rhoi.

Yn achos unigolyn ifanc sy'n bygwth hunanladdiad neu hunan-niwed difrifol, derbynir yn gyffredinol bod angen ymyrryd hyd yn oed pan fydd hyn yn golygu torri cyfrinachedd. Bydd pryderon manach yn aros yn gyfrinachol oni bai fod yr unigolyn ifanc eisiau iddynt gael eu rhannu er mwyn ceisio cymorth pellach.

Nid oes yn rhaid i'r cwnselydd basio gwybodaeth ymlaen am unigolyn ifanc sy'n torri rheol ysgol neu'n cyflawni trosedd, oni bai y gellid tybio, trwy wneud hynny, bod y cwnselydd yn cynorthwyo ac yn anog trosedd (e.e. – unigolyn ifanc sy'n delio cyffuriau yn yr ysgol).

** Credir bod pobl ifanc sy'n cael eu hystyried yn 'gymwys yn ôl canllawiau Gillick' wedi cyrraedd dealltwriaeth a deallusrwydd digonol er mwyn gallu penderfynu ar fater sydd angen eu penderfyniad, heb ganiatâd eu rhieni neu yn erbyn dymuniadau eu rhieni.*

7.0 Caniatâd rhieni

Efallai y bydd person ifanc yn cael cynnig un neu ddwy sesiwn gychwynnol gyda chwnselydd cyn ymrwymo'u hunain, a chyn unrhyw ymgysylltiad â rhieni.

Os yw unigolyn ifanc yn dymuno parhau â'r sesiynau cwnsela, dylid ceisio caniatâd rhieni, gyda chytundeb yr unigolyn ifanc.

7.1 Pryd mae gan unigolyn ifanc yr hawl i gael mynediad at gwnsela heb ganiatâd rhieni?

Weithiau gall rhiant wrthod caniatâd neu efallai y bydd yr unigolyn ifanc yn poeni'n fawr ac yn anfodlon i'r ysgol fynd at y rhieni. Yn yr achosion hyn, gall cwnsela fynd rhagddo os yw'r cwnselydd yn asesu bod yr unigolyn ifanc yn gymwys, yn ôl canllawiau Gillick, i roi caniatâd ohonynt eu hunain. Gweler atodiad 2.

Os yw unigolyn ifanc yn anfodlon cynnwys eu rhieni ac wedi'u hasesu i fod yn gymwys, gall yr unigolyn ifanc roi eu caniatâd ysgrifenedig eu hunain ar gyfer cwnsela.

"Fel egwyddor gyffredinol, mae'n gyfreithiol a derbyniol i unigolyn ifanc ofyn am gwnsela cyfrinachol heb ganiatâd rhiant, ar yr amod eu bod â dealltwriaeth a deallusrwydd digonol." (Gillick v. West Norfolk AHA, Tŷ'r Arglwyddi 1985)

Mae asesiad o gymhwysedd yn seiliedig ar egwyddor Gillick yn dibynnu ar;

- Aeddfedrwydd yr unigolyn ifanc
- Bod gan yr unigolyn ifanc ddigon o ddeallusrwydd a dealltwriaeth i'w galluogi i ddeall beth sy'n cael ei gynnig, h.y. cwnsela
- Bod gan yr unigolyn ifanc ddigon o ddeallusrwydd a dealltwriaeth o ganlyniadau ei g/weithredoedd

Gall unigolyn sydd:-

a) ddim â chyfrifoldeb rhiant am blentyn penodol ond

b) sy'n gofalu am y plentyn;

wneud (yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf) beth bynnag sy'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos at y diben o ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn.

(Deddf Plant 1989 a3.(5))

8.0 Sesiynau Cwnsela

Mae'r sesiwn gychwynnol yn rhoi cyfle i'r unigolyn ifanc ddysgu mwy am gwnsela. Dywedir wrthynt ei fod yn wirfoddol a chyfrinachol (gyda rhai eithriadau, a gaiff eu hesbonio), byddant yn dechrau ymddiried yn y cwnselydd, a siarad ychydig am eu sefyllfa. Bydd y cwnselydd hefyd yn dechrau ymgysylltu â'r unigolyn ifanc ac yn gwneud asesiad cychwynnol, a fydd yn llywio'r gwaith yn y dyfodol. Efallai y bydd angen ail sesiwn ar unigolyn ifanc cyn iddynt benderfynu a yw cwnsela'n iawn ar eu cyfer hwy. Fodd bynnag, gall un neu ddwy sesiwn fod yn ddigon i lawer o bobl ifanc ac yna gall asesu fod yn broses llawer byrrach.

Mae sesiynau cwnsela un i un yn para tua 45 munud fel arfer. Efallai y bydd angen rhoi amser ar ddiwedd sesiynau i roi cyfle i'r person ifanc feddwl drwy'r materion a archwiliwyd yn ystod y sesiwn. Weithiau bydd angen i berson ifanc gael mynediad at le tawel ar ôl sesiwn.

Os yw person ifanc wedi colli dwy neu ragor o sesiynau unwaith y bydd y cwnsela wedi dechrau, bydd yr aelod o staff dynodedig yn cael ei hysbysu ac yn mynd ar drywydd hyn gyda'r person ifanc.

Fel arfer, bydd y penderfyniad i ddod â sesiynau cwnsela i ben yn gytundeb rhwng y cwnselydd a'r person ifanc. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr aelod staff dynodedig yn cael ei hysbysu, ynghyd â'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol.

Weithiau, efallai y bydd angen cyfeirio pobl ifanc at asiantaeth arall am ragor o gymorth. Gwneir hyn gyda chaniatâd penodol yr unigolyn ifanc, oni bai bod pryderon amddiffyn plant neu iechyd meddwl. Bydd cwnselydd yr ysgol yn cysylltu gydag asiantaethau lleol priodol eraill, ac mewn rhai achosion, gyda rhieni neu ofalwyr.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 a rhoddir Hysbysiad Prosesu Teg i bobl ifanc neu rieni/gwarcheidwaid os oes angen caniatâd rhieni.

9.0 Lleoliad

Dylid meddwl am neilltuo lleoliad addas. Yn ddefnyddiol, dylai'r ystafell fod mewn lleoliad tawel ac nad oes modd gweld i mewn iddi, a dylai fod wedi'i dodrefnu mewn ffordd sy'n ei gwahaniaethu oddi wrth ystafell ddosbarth neu swyddfa.

10.0 Hyrwyddo'r Gwasanaeth Cwmsela Ysgolion

Cynhyrchir taflenni gwybodaeth i rieni gan y gwasanaeth er mwyn i rieni gael eu hysbysu'n iawn a bod yn ymwybodol o sut y gall pobl ifanc gael mynediad at y gwasanaeth. Bydd taflenni ar gael gan gwmselwyr ysgol.

Bydd gwybodaeth am y gwasanaeth cwmsela ar gael ym mhrosbectws yr ysgol, ar wefan yr ysgol, mewn taflenni gwybodaeth a thrwy wasanaethau'r ysgol.

11.0 Fframwaith Moesegol

Mae pob cwmselydd ysgol wedi'u cofrestru â'r BACP ac yn gweithredu'n unol â 'Fframwaith Moesegol ar gyfer Arfer Da' Cymdeithas Cwmselwyr a Seicotherapi Prydain (BACP).

12.0 Cadw cofnodion

Bydd y cwmselydd yn rhoi cofnod o'r canlynol i'r aelod staff dynodedig;

- Enw'r disgyblion sy'n cael cwmsela
- Caniatâd rheini wedi'i geisio neu ei gael
- Nifer y sesiynau a fynychwyd hyd at ddiwedd y cwmsela
- Unrhyw gamau/gyfeirio pellach

Bydd cwmselydd yr ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 wrth gasglu, cadw neu adrodd ar gofnodion cleientiaid. Mae gan bobl ifanc a'u rhieni, neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant, os oes angen caniatâd rhieni, yr hawl i gael gafael ar eu gwybodaeth bersonol a gedwir gan y gwasanaeth yn ogystal â nifer o hawliau eraill a amlinellir yn Hysbysiad Prosesu Teg y gwasanaeth. Bydd copi o'r Hysbysiad Prosesu Teg ar gael ar ddechrau'r cwmsela.

Mewn rhai achosion, mae gan blant dan 16 oed, sydd â'r gallu a'r ddealltwriaeth i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth eu hunain, hefyd hawl i benderfynu a ellir trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac yn gyffredinol, i gael pobl i barchu eu cyfrinachedd, er enghraifft, os oeddent yn cael cwmsela neu driniaeth am rywbeth nad oeddent yn dymuno i'w rhiant wybod amdano.

Mae cyfraith achosion wedi pennu, mewn achos plentyn a gaiff ei ystyried yn "gymwys yn ôl canllawiau Gillick", sef plentyn o dan 16 oed sydd â'r gallu a'r ddealltwriaeth o ran y driniaeth arfaethedig i roi neu dynnu caniatâd yn ôl, y dylid parchu'r caniatâd neu wrthodiad hwnnw. Fodd bynnag, mae arfer da yn pennu y dylid annog y plentyn i gynnwys rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol eraill mewn unrhyw driniaeth.

(Canllaw ar gyfer cael Mynediad at Geisiadau Iechyd o dan y Ddeddf Diogelu Data)

Mae gan y Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gadw a chyflwyno ffurflenni data dienw cyfanredol i Lywodraeth Cymru, bob blwyddyn.

13.0 Gweithdrefnau cwynion

Os y gwneir cwyn yn erbyn cwnselydd, cysylltwch â'r rheolwr Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion yn y lle cyntaf.

Mae pob un o gwmselwyr y Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion yn Sir Benfro yn aelodau cofrestredig o'r BACP ac yn cydymffurfio â'i Weithdrefn Ymddygiad Proffesiynol. Nod y Weithdrefn Ymddygiad Proffesiynol yw darparu llwybr datrys agored a thryloyw, lle gwneir cwynion yn erbyn aelodau'r BACP. Wrth brosesu cwynion o'r fath, nod y BACP yw diogelu aelodau'r cyhoedd, enw ac enw da BACP a'r proffesiynau cwnsela a seicotherapi. Mae amlinelliad o'r gweithdrefnau cwynion ar gael yn y cod ymarfer hwn.

14.0 Gwybodaeth ychwanegol

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â;

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Guidelines for Counselling in Schools - Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain (BACP) ynghyd â Sefydliad Gulbenkian

Good Practice Guidance for Counselling in Schools cyhoeddwyd gan BACP - gol. Susan McGinnis, pedwerydd argraffiad 2006.

Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant i Ysgolion (2014) Kate Evan-Hughes, Cyngor Sir Penfro

Deunydd Cyfeirio

Casemore, R. (1995), **Confidentiality & School Counselling**, Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain

Deddf Plant, (1989), a3.(5)

DELLS. (2007), **Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru – Strategaeth Genedlaethol**, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Tŷ'r Arglwyddi, **Gillick v. West Norfolk AHA**, (1985), 3 All ER 402 (HL)

McGinnis, S. **Good Practice Guidance for Counselling in Schools**, Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain

BACP. (2018), **Fframwaith Moesegol ar gyfer y Proffesiynau Cyngori** Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain


Deddf Diogelu Data, **Canllaw i gael Mynediad at Geisiadau Iechyd**, Adran Iechyd

Gwefannau

www.bacp.co.uk

Atodiadau

Atodiad 1 – Y Broses Gyfeirio



Unwaith y bydd sesiynau cwnsela wedi'u cwblhau, bydd cwnselydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r aelod staff dynodedig.

Atodiad 2

Cymwys yn ôl Canllawiau Gillick

Nid oes gan riant yr hawl i reoli plentyn hyd at 18 oed. Mae rheolaeth rhiant yn ildio i hawl y plentyn i wneud ei benderfyniadau ei hun pan fydd plentyn yn cyrraedd dealltwriaeth a deallusrwydd digonol i allu gwneud ei benderfyniadau ei hun ar fater sy'n gofyn am ei benderfyniad. Mae plentyn o'r fath bellach yn cael ei ddisgrifio'n gyffredin fel plentyn sy'n gymwys yn ôl canllawiau *Gillick*. Yn *Gillick v West Norfolk and Wisbech Health Authority*, fe wnaeth Tŷ'r Arglwyddi, o fwyafrif, gadarnhau bod plentyn dan 16 oed yn gallu rhoi caniatâd i driniaeth feddygol os oedd yn gallu deall yr hyn a gynigiwyd ac yn gallu mynegi ei ddymuniadau ei hun. Mae'n dilyn, po aeddfetaf yw'r plentyn, y mwyaf o ofal y dylid ei gymryd i ystyried ei ddymuniadau a'i deimladau. Yn ogystal, lle mae plentyn yn 16 neu'n 17, gall naill ai'r rhiant neu'r plentyn gydsynio i driniaeth yn annibynnol (er na all y naill na'r llall ddiystyru'r llall neu weithredu feto). Fodd bynnag, gall y llys ddiystyru dymuniadau'r ddau, lle mae triniaeth yn hanfodol er lles y plentyn.

